Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Casmael
# Neuadd yr Ysgol
# Ysgol Casmael
# Casmael
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA62 5RL

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Casmael yn cyfarfod yn neuadd Ysgol Casmael sydd ym mhentref gwledig Casmael, Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 17 o blant ar y gofrestr ac y mae naw ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o gartrefi gyda Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae tri aelod o staff. Mae'r rhan fwyaf yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Mawrth 2000.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ebrill 2013 a chan Estyn yn Nhachwedd 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol i'r plant;
- yr addysgu effeithiol yn sicrhau ymrwymiad a mwynhad y plant yn eu dysgu;
- cyfleoedd cyson i'r plant arbrofi ac i weithio'n annibynnol;
- y berthynas dda rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn datblygu eu hyder fel dysgwyr;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant;
- yr amgylchedd dysgu lliwgar yn denu a chymell y plant yn effeithiol; a bod
- ethos cynhwysol lle caiff yr holl blant ofal a chymorth da.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- ymrwymiad cryf yr arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarnhaol i waith y lleoliad;
- partneriaeth waith agos rhwng yr ymarferwyr sy'n seiliedig ar barch;
- y defnydd cynhyrchiol o fedrau'r ymarferwyr yn creu gwaith tîm effeithiol;
- swyddogion y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithlon;
- dealltwriaeth briodol gan yr ymarferwyr o gryfderau'r lleoliad a rhai agweddau i'w datblygu;
- yr ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio; a bod
- partneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad.

## Argymhellion

A1. Strwythuro’r cynllunio i ddatblygu medrau’r plant yn gyson yn arbennig eu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2. Creu tasgau sy’n cynnig her briodol i’r holl blant yn gyson

A3. Datblygu gweithdrefnau mwy penodol i arfarnu’r ddarpariaeth

A4. Ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau TGCh

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a datblygiad y plant. Maent yn cynnwys astudiaethau o dopigau megis anifeiliaid y jyngl, lliwiau a rhifau, a thestunau tymhorol. Mae ychydig o gyfleoedd i'r plant gynnig eu syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Caiff cynnwys y themâu ei drafod a'i gofnodi'n fanwl. Er hyn, nid oes strwythur digon clir i'r cynllunio tymor byr i ddatblygu medrau'r plant yn gyson, yn arbennig eu medrau llythrennedd a TGCh. Caiff gweithgareddau eu paratoi'n drwyadl ond nid yw'r tasgau bob amser yn sicrhau her briodol i blant o ystod oed a gallu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ymarfer eu medrau llythrennedd drwy wrando ar storïau, trafod topigau gwahanol, dysgu caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae'r profiad o anfon llythyr at Siôn Corn yn cynorthwyo'r plant i ddechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu.

Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, amser byrbryd ac yn eu chwarae. Mae defnydd pwrpasol o sesiynau coginio a chrefft i hybu dealltwriaeth y plant o siapiau sylfaenol ac o dermau mathemategol megis mawr a bach, trwm ac ysgafn. Mae ychydig o gyfleoedd i'r plant ymarfer eu medrau TGCh sylfaenol yn eu chwarae megis defnyddio'r peiriant arian yn y caffi.

Darperir profiadau priodol i'r plant ymarfer eu medrau creadigol ac ymchwilio trwy, er enghraifft, efelychu gwaith artist lleol, coginio bwydydd i gyfleu tân gwyllt, a defnyddio chwyddwydrau i astudio nodweddion ffrwythau a dail yr hydref.

Mae ymwybyddiaeth y plant am draddodiadau a dathliadau Cymru yn cael ei ddatblygu'n effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o ymweliadau, megis â phlasty lleol, ac o gyfraniad pobl fel y deintydd, y postman a'r heddwas i ymestyn profiadau dysgu'r plant.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant ac o’r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd priodol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sy’n sicrhau ymrwymiad gweithredol a mwynhad y plant yn eu dysgu.

Mae’r rhaglen o weithgareddau yn symud ar gyflymder da. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol. Maent yn ymyrryd yn sensitif yn chwarae’r plant ac yn annog y plant i roi cynnig ar brofiadau newydd. Manteisiant ar bob cyfle i wella ac ymestyn eu geirfa. Mae hyn yn cynnwys defnydd effeithiol o sesiynau amser stori ac o weithgareddau canu i gyfeiliant offerynnau gwahanol.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn ofalus trwy arsylwi a thrafod. Trosglwyddir y wybodaeth a gesglir i daflenni cyrhaeddiad unigol sy’n gofnod effeithiol o gynnydd plant ar draws y meysydd dysgu. Mae’r defnydd o’r wybodaeth ar gyfer cynllunio’r camau nesaf yn y dysgu yn fwy anwastad. Caiff y rhieni a’r gofalwyr wybodaeth berthnasol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol a thrwy dderbyn copïau o’r dogfennau cofnodi ac enghreifftiau o waith eu plant. Mae ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth addas i’r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned ofalgar ac mae perthynas waith agos rhwng yr oedolion a’r plant. Mae’r trefniadau cynefino, ynghyd â’r cysylltiad dyddiol gyda rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n dda yn y lleoliad. Mae polisïau a gweithdrefnau i gynnal a chefnogi iechyd a lles y plant yn cael eu gweithredu’n briodol. Mae cyfleoedd pwrpasol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta’n iach ac ymarfer y corff. Mae byrbrydau iachus ar gael i’r plant yn ddyddiol.

Sefydlwyd trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau cefnogi plant a therapyddion lleferydd.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.

Mae’r profiadau dysgu yn meithrin datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd fel caredigrwydd a phwysigrwydd rhannu a chymryd tro yn cael eu meithrin yn effeithiol trwy weithgareddau dyddiol. Mae’r ymarferwyr yn fodelau rôl effeithiol. Maent yn trin pob plentyn gyda pharch. Mae cyfleoedd priodol i’r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu Gŵyl Divali a’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae profiadau megis adrodd gweddi o ddiolch cyn byrbryd, cynnal dathliad o ddiolchgarwch a dysgu am stori’r geni yn cyfrannu’n adeiladol at ddatblygiad ysbrydol

y plant. Yn ogystal, mae cymryd rhan mewn cyngerdd ar gyfer y rhieni a gofalwyr yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i’r plant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Maent yn ail gylchu papur, yn tyfu llysiau a phlanhigion, yn ymweld â fferm i arsylwi ar anifeiliaid, ac yn paratoi bwyd ar gyfer yr adar.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos teuluol cryf yn treiddio trwy’r lleoliad. Mae’n gymuned gynhwysol sy’n rhoi mynediad cyfartal i blant i’r cwricwlwm a’r holl weithgareddau a ddarperir. Mae’r ymarferwyr yn ystyried a gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae digon o adnoddau o ansawdd da yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae prinder adnoddau TGCh yn cyfyngu’n sylweddol ar y profiadau y gellir eu darparu yn y maes.

Yn gyffredinol, mae’r neuadd yn darparu cyfleusterau addas. Caiff yr amgylchedd dysgu ei gyfoethogi trwy greu arddangosiadau deniadol gyda ffocws clir megis lliw'r wythnos neu thema’r hydref. Mae adnoddau ac offer yn cael eu trefnu’n dda ac o fewn cyrraedd y plant. Nid oes ardal chwarae awyr agored ond mae’r lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o ardaloedd chwarae a chae’r ysgol gynradd ar gyfer ystod o weithgareddau. Mae’r adeilad yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad cryf y prif ymarferydd yn darparu cyfeiriad cadarnhaol i waith y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn gweithio’n dda fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant. Maent yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda’r plant, eu rhieni a gofalwyr sy’n cyfrannu’n dda at ymdeimlad o gymuned o fewn y lleoliad. Mae polisïau addas yn weithredol.

Mae’r cyfarfodydd staff dyddiol i drafod rhaglen y sesiwn a rhannu cyfrifoldebau yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau. Mae trefn glir a rhediad esmwyth i’r sesiynau.

Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda’r ymarferwyr. Maent yn rhannu’r un nodau ac amcanion o ran datblygiad y lleoliad. Mae’r swyddogion yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn effeithlon. Enghraifft o hyn yw’r ymgyrch llwyddiannus i hysbysebu’r lleoliad sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn niferoedd y plant sy’n mynychu.

Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i werthuso gwaith yr ymarferwyr ac i hybu eu dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael yn arbennig ym maes gofal plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o rai o'r prif agweddau sydd angen gwelliant. Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio a chyd-drafod. Er hyn, mae'r gweithdrefnau i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn rhy anffurfiol eu natur.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cyffredinol o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella a gynhyrchwyd yn sgil hyn yn nodi meysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae gweithredu'r cynllun yn ei ddyddiau cynnar ond yn datblygu'n briodol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol a thrwy holiaduron. Caiff polisïau a chanllawiau newydd eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin. Mae'r ymarferwyr yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawon cyswllt yr awdurdod lleol. Rhoddir strategaethau priodol ar waith sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r sylw diweddar i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill trwy ystod o weithgareddau yn cynnwys gweithgareddau crefft a choginio yn enghraifft.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf wedi cael sylw addas ond mae cynllunio, yn cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o ganlyniadau asesu, yn parhau yn faes i dderbyn sylw pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a'r gofalwyr a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfrynnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae partneriaeth dda iawn gyda'r ysgol gynradd. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'r cyfleoedd da i gyd-drafod gyda staff yr ysgol ac o barodrwydd yr ysgol i rannu cyfleusterau ac adnoddau. Mae'r plant yn adnabod staff yr ysgol ac o ganlyniad maent yn setlo'n rhwydd i fywyd a gwaith yr ysgol gynradd.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r athrawon cyswllt a swyddog Mudiad Meithrin yn cyfrannu'n gynhyrchiol at waith y lleoliad drwy'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol gyda'r gymuned. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu at brofiadau'r plant ac mae cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian. Mae cyfle da i'r plant, rhieni a gofalwyr i gymryd rhan mewn gwasanaeth carolau gyda chylchoedd meithrin eraill yr ardal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n addas a gwneir defnydd adeiladol o fedrau’r ymarferwyr i gyfoethogi’r cwricwlwm. Mae defnydd effeithiol o adnoddau i gefnogi’r dysgu a’r addysgu.

Mae’r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Gwnânt ddefnydd priodol o’r hyfforddiant a geir megis hyrwyddo medrau iaith y plant drwy chwarae. Mae defnydd cynhyrchiol o gyfarfodydd i rannu profiadau ac arfer dda gyda lleoliadau eraill.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o’r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu’n briodol yn ôl anghenion y lleoliad. Mae defnydd effeithiol o fentrau codi arian ac o grantiau er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a’r gofal a chymorth i blant, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; |

| | |
|---|---|
| **plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |